**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru
—
**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

At: Y Pwyllgor Busnes

3 Tachwedd 2022

Annwyl Pwyllgor Busnes,

**Nifer o Dirprwy Lywyddion o dan Ddiwygiad y Senedd**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd mewn perthynas â nifer y Dirprwy Lywyddion ar gyfer y Seithfed Senedd.

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Senedd wrth ystyried y nifer priodol o Ddirprwy Lywyddion yn neddfwriaeth Diwygio'r Senedd.

Mae'r Senedd wedi bod yn destun newid sylweddol ers ei chreu ym 1999. Mae mwy o bwerau deddfu, pwerau dros drethiant a newid sylweddol yn y model pwerau yn golygu bod busnes yn fwy cymhleth i'w lywio. Wrth i statws y Senedd aeddfedu, mae'r galwadau ar amser y Llywydd fel Cadeirydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes – yn ogystal â chynrychioli'r Senedd mewn ymweliadau a digwyddiadau mewnol ac allanol – wedi cynyddu, ochr yn ochr â dyletswyddau cadeirio'r Cyfarfod Llawn.

Hyd yn hyn, galwyd ar Gomisiynwyr i gadeirio cyfarfodydd llawn ar adegau pan nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd ar gael, gan ddangos yr angen am hyblygrwydd yn y darpariaethau ar gyfer cefnogi busnes y Senedd. At hynny, mae'r sefyllfa hon wedi'i hategu gan gytundeb diweddar y Senedd i ethol Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn sydd â phwerau llawn dros gynnal trefn a phleidleisio, ond nad yw'n gallu cyflawni unrhyw un o swyddogaethau eraill y Llywydd.

Mae'n bosibl y bydd Senedd fwy o faint yn cyfarfod yn amlach ac/neu am sesiynau hirach o'r Cyfarfod Llawn, ac felly rhagwelir y bydd hyd yn oed mwy o alw ar amser y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

Wrth ystyried yr angen am ddeiliaid swyddi ychwanegol roedd y Panel Arbenigol yn pryderu bod y "*manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu*" ac rydym yn ymwybodol o'r angen i beidio â chynyddu nifer y deiliaid swyddi y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol.

Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig "*y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny*". At hynny, fe wnaethon nhw argymell fel a ganlyn: *"Gellid dadlau y dylai'r Senedd fod â hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny (ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni)*".

Ar y lleiaf, felly, dyma annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn cael gwared ar y cyfyngiad sy'n caniatáu dim ond un Dirprwy Lywydd. Er mwyn cynnal yr egwyddor o hyblygrwydd, ein hawgrym yw bod y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn caniatáu 'o leiaf un' Dirprwy Lywydd. Byddai angen adolygu Adrannau 25(7-9) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau nad yw'r Llywydd a'r Dirprwyon oll yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol, na chwaith oll yn perthyn i'r Llywodraeth neu peidio.

Yn ogystal â nifer y Dirprwy Lywyddion, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried a ddylid pennu teitl arall i Presiding Officer yn Neddf Llywodraeth Cymru. Ein dewis ni fyddai '*Speaker*' a '*Deputy Speaker*'. Yn yr un modd, hoffem pe baech yn ystyried y posibilrwydd o'r teitlau Cymraeg 'Llywydd' a 'Dirprwy Lywydd' ymddangos ar wyneb y Bil, gyda'r holl gyfeiriadau yn Neddf Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfeiriadau at '*the Llywydd*' yn hytrach na '*Presiding Officer*' neu '*Speaker*' drwy welliant i a. 25(1)(a).

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol ichi ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu ymhellach â'r Pwyllgor a'r Llywodraeth wrth i raglen Diwygio'r Senedd fynd rhagddi.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Llywydd

**David Rees AS**

Dirprwy Lywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English